# y Dinesydd

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD
1 CHWEFROR 1993 RHIF 170 65c I NI – AM DDIM I CHI


RHIFYN ARBENNIG YN CYNNWYS ATODIAD
Yn Gymraeg...
...yng Nghaerdydd a'r Fro

# Sadwrn y dathlu yn dangos plu Cymraeg y ddinas ar eu gorau

***"Gwmws fel 'steddfod – wedi gweld pawb 'ma."***

Dyna ymateb rhai o'r Cymry Cymraeg a'r dysgwyr yn y dorf enfawr ar Lefel 2 Neuadd Dewi Sant ddydd Sadwrn 23 Ionawr, pan drefnwyd diwrnod agored i'r Gymraeg gan CYD De Morgannwg.

Y nod oedd portreadu bywyd Cymraeg y ddinas yn ei holl agweddau, er mwyn agor drws y bywyd hwnnw i ddysgwyr. "Ac yn y pendraw," meddai Alun Treharne, un o'r trefnwyr, "i greu perthynas newydd, agos rhwng y Cymry Cymraeg a'r dysgwyr".

Roedd yr iaith i'w chlywed ym mhobman; dywedir bod 17,000 o Gymry'n byw yng Nghaerdydd, ac ar adegau hawdd credu bod canran parchus ohonyn nhw'n bresennol yn y Neuadd.

Yn ôl un o reolwyr Neuadd Dewi Sant, roedd y dyrfa ar gyfer *Yn Gymraeg...Yng Nghaerdydd a'r Fro* deirgwaith yn fwy na'r arfer ar gyfer dydd Sadwrn, gyda tua 1,000 o bobol yno yn gyson drwy gydol y dydd.

Yn cyfrannu at lwyddiant y diwrnod oedd dros ddeugain o fudiadau, cymdeithasau ac eglwysi Cymraeg Caerdydd, yn cael eu cynrychioli ar stondinau ar Lefel 2, a thrwy gydol y dydd cafwyd rhaglen o adloniant, gan gynnwys dawnsio gwerin, yoga drwy gyfrwng y Gymraeg, a Delwyn Siôn a'i gerddoriaeth ar Lefel 3 dros yr awr ginio.




• Pete Bradley, Carole Townsend, Lowri Johnston, Gruff Clarke ac Alun Treharne yn rhannu miri *Yn Gymraeg... Yng Nghaerdydd a'r Fro*, y Sadwrn Cymraeg yn Neuadd Dewi Sant

Cyfrannodd Cyngor Dinas Caerdydd y cyfleusterau yn Neuadd Dewi Sant yn am ddim ar gyfer trefnwyr y diwrnod, a llwyddwyd i godi digon o nawdd ar gyfer talu costau ychwanegol. Y nod o'r cychwyn oedd i'r diwrnod roi proffil uchel i'r iaith yng Nghaerdydd, ac i greu cyfle i ddysgwyr y Gymraeg gael darganfod bwrlwm y riaith yn y ddinas.

Dywedodd Alun Treharne wrth y Dinesydd "Roedd y stondin Cymraeg i Oedolion wedi gwneud busnes da drwy gydol y dydd, gyda nifer o bobol yn holi am ddysgu Cymraeg, ond er hynny dwi ddim yn siwr i ba raddau gyrhaeddon ni'r dysgwyr go iawn, am fod y diwrnod wedi denu llawer o deuluoedd Cymraeg a bod pwyslais y diwrnod wedi symud rhyw ychydig."

"Dywedodd llawer o bobol mai dyma'r peth gorau sydd wedi digwydd i'r iaith yng Nghaerdydd ers blynydde, ond oherwydd y gwaith trefnu anferth gan griw o wirfoddolwyr, oedd yn rhaid ei wneud er mwyn sicrhau llwyddiant y diwrnod, does gen i ddim addewidion eto ynglŷn â diwrnod arall tebyg yn y dyfodol, ond yn sicr mae lle ar gyfer cynnal diwrnod fel hwn yn lled gyson."

Mae'r diwrnod hefyd wedi bod yn fendith i Gyngor y Ddinas sydd wrthi'n paratoi cynlluniau i godi hysbysfwrdd o ddigwyddiadau Cymraeg yn un o brif strydoedd y dre, gan fod llawer iawn o'r gwaith trefnu a chysylltu wedi ei wneud gan *Yn Gymraeg ...Yng Nghaerdydd a'r Fro*.

'Welsh Language Fair' oedd y teitl Saesneg ar y diwrnod – a pha ddull gwell i 'werthu' iaith na'i cynnig mewn Ffair debyg.

***• Dymuna trefnwyr Yn Gymraeg...Yng Nghaerdydd a'r Fro ymddiheuro i Celtic Henderson Crosthwaite am hepgor eu logo o'u hysbyseb yn y Cyfeiriadau i Weithgarwch sy'n atodiad yn y Dinesydd hwn.***

Y Dinesydd, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL
Ffôn 0222 578772 Fax 0222 567639 Gwerthiant Hysbysebion 0222 598243
Golygydd: Shân Emlyn 567438 Cyhoeddwyr: Surrexit Argraffu: Treforest Printing Cyhoeddir â chymorth Cyngor y Celfyddydau © Y Dinesydd 1993

CYNGOR SIR DE MORGANNWG

# BYGYTHIAD I GRANT YR EISTEDDFOD O'R SIR


DEWI GREGORY

**MEWN YMGAIS** i gwtogi £8 miliwn ar eu gwariant, bygythiodd Cyngor Sir De Morgannwg ddod â'r fwyell ar eu grant blynyddol i'r Eisteddfod Genedlaethol, a hynny er gwaetha'r ffaith fod y Sir wedi cyfrannu'n helaeth i goffrau'r brifwyl yn y gorffennol.

Dywed Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, ei fod yn cydymdeimlo â'r cynghorwyr sir, a hwythau mewn cyfyng gyngor. Ond ar yr un pryd mae'n ofni y gallai cynghorau eraill Cymru ddilyn trywydd De Morgannwg, ac y byddai'r Eisteddfod yn colli gwerth £250,000 o grantiau blynyddol.

Er mai cwta £1,000 y cyfrannodd De Morgannwg i'r Eisteddfod y llynedd, mae'r sir wedi cyfrannu symiau uwch yn y gorffennol, yn enwedig pan fo'r brifwyl wedi ei chynnal yn y cyffuniau hyn. Maent hefyd wedi bod yn noddi pabell ar y maes.

Dywedwyd wrth y Dinesydd fod y toriadau yn y grantiau arfaethedig i'r Eisteddfod, ynghyd â'r Cwmni Opera Cenedlaethol a Choleg yr Iwerydd eleni, a suon ar led na chaiff Neuadd Llanofer, yr Heritage Coast, na Gwasanaeth Cerdd i Ysgolion y Sir ddim dimau chwaith, yn benderfyniad gwleidyddol a fyddai'n tynnu sylw at yr argyfwng cyllido presennol sy'n wynebu holl gynghorau sir Cymru.



• argyfwng De Morgannwg sy'n bygwth pwrs y Genedlaethol

Dywedodd y cynghorydd Mark Drakeford nad oedd y Swyddfa Gymreig wedi ennill grant bloc digonol gan y Trysorlys eleni, ac wrth ddosrannu cyllid y Swyddfa Gymreig bod David Hunt wedi plesio'r cynghorau dosbarth ar draul y cynghorau sir.

Dywed y cynghorydd Bob Morgan bod proses o danseilio pellach ar waith yma, sy'n dilyn preifateiddio gwasanaethau, rhwygo'r gyfundrefn addysg, canoli pwerau penderfynu a chyllido yn nwylo'r cwangos ac yn Whitehall.

"Mae penderfyniad y cynghorwyr i ddileu'r grant i'r Eisteddfod a'r sefydliadau cenedlaethol eraill yn brotest cyhoeddus yn erbyn y polisïau hyn", meddai.

A DIM OND Y GWIR...

# BARGEN? PA FARGEN?

ELINOR PATCHELL

Er fod mis Ionawr a'r rhuthr cyntaf i'r sêls wedi mynd heibio, hwyrach bod gan rai o ddarllenwyr y Dinesydd arian yn weddill sy'n llosgi twll yn eu pocedi ac am fentro i'r siopau i ddal y bargeinion ola. Cofiwch eich hawliau.

Rhaid i nwyddau sy wedi eu gostwng mewn pris, fel pob nwydd arall, fod yn gymwys at eu pwrpas, yn gweithio'n iawn, ac o safon masnachol. Mae'n rhaid iddyn nhw gydymffurfio â'u disgrifiad. Os ydyn nhw'n ddiffygiol, gellir eu dychwelyd a hawlio ad-daliad, sêl neu beidio.

Ond lle bo nwyddau wedi eu labelu 'sold as seen' neu wedi eu marcio 'A.F' (as found) rhaid i'r prynwr fod ar ei wyliadwraeth. Mewn amgylchiadau felly rydych yn prynu set o lestri te, craciau a chwbl, a fedrwch chi ddim cwyno wedyn os wnaethoch chi fethu ei archwilio'n fanwl cyn talu amdano.

Cofiwch hefyd nad oes gennych hawl gyfreithiol i ddychwelyd rhywbeth yn unig am eich bod wedi ail-ystyried ar ôl cyrraedd adre a phenderfynu nad ydych yn ei hoffi wedi'r cwbl.

Peidiwch chwaith â chael eich camarwain fod derbynneb yn angenrheidiol cyn y gall siop wneud dim ynglŷn â'r mater. Mae bod â derbynneb yn eich meddiant yn osgoi llawer o ffwdan, ond nid yw'n anghenraid cyfreithiol.

Cofiwch fod 'special purchase' yn golygu yn union beth mae'n ddweud – bod y nwyddau wedi eu prynu'n arbennig gan y siop ar gyfer y sêl. Mae'n annhebygol iddynt erioed gael eu gwerthu am bris uwch, a hwyrach nad ydyn nhw'n fargen o gwbwl!

**Bydd y Dinesydd nôl yn llawn fis Mawrth**

*Ein ymddiheuriadau i bawb a gyfrannodd erthyglau i'r rhifyn hwn na fu'n bosib eu cyhoeddi*

## LLON A'R LLEDDF



• Bu farw Ken Innes o'r Eglwys Newydd ar 23 Ionawr wedi salwch byr, yn 62 oed. Y llynedd dathlodd degfed penblwydd y galon newydd a gafodd yn ysbyty Harefield ym 1982. Byddwn yn cyhoeddi cofiant llawn ohono ym mis Mawrth.

• Bu farw hefyd Rebecca Powell o Aberystwyth, gwraig y Parch Eifion Powell fu'n weinidog yng nghapel Minny Street.

• Ganed merch, Elin Fflur, i Rhys a Rhian Griffith, a chwaer i Steffan.

• Ganed merch hefyd, Cadi-Ann, i Catrin a Steve Allen, Ystum Taf.

• Mae'r Dinesydd yn ddiolchgar i Eglwys Dewi Sant, y Clwb Cam Ymlaen, Eglwys y Crwys, ac Eglwys Ebeneser am eu rhoddion caredig tuag at ein costau.

## YN DIGWYDD

**5 CHWEFROR**
*W J Gruffydd*, Geraint Eckley
Cymrodorion Caerdydd, Capel y Crwys

Jess, Clwb Ifor Bach

**6 CHWEFROR**
Hefin Huws, Cylchoedd Hud
Clwb Ifor Bach

**8 CHWEFROR**
*Ynni Gwynt – breuddwyd neu realiti?*
Dafydd Huws, y Gymdeithas Wyddonol

**9 CHWEFROR**
*Chwedl a Chân*
Eulonwy a T J Rhys Jones, Y Tabernacl

*Caethion y Tir*, Dafydd Pretty,
Cymdeithas Carnhuanawc

**12 CHWEFROR**
Y Pedwar, *Llafar a Chân*
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd

**13 CHWEFROR**
Bob Delyn a'r Ebillion, Clwb Ifor Bach

**23 CHWEFROR**
*Profiadau Difyr*, Iwan Thomas,
Y Tabernacl

## I'W RENTU

Angen person ifanc
i rannu tŷ yn Danescourt
Pob cyfleustra modern,
gwres canolog, lle parcio.

Dim ysmygu. Dim anifeiliaid.
£200 y mis a biliau.

Ffoniwch ar ôl 5.30pm
578346 neu 229673



# Yn Gymraeg...
## ...yng Nghaerdydd a'r Fro

*A guide to what's on in Welsh in Cardiff and the Vale*

# Cyfeiriadur i Weithgarwch Cymraeg Caerdydd a'r Fro
## – 1993 –

Cyhoeddiad

CYD

mewn cydweithrediad â

y Dinesydd

# – rhagair –

Datblygwyd y cyfeiriadur hwn i gyd-fynd â gŵyl *Yn Gymraeg... yng Nghaerdydd a'r Fro* a drefnwyd gan CYD: De Morgannwg ac a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant ar 23 Ionawr 1993. Nod y trefnwyr oedd cyflwyno darlun o fywyd Cymraeg y brifddinas a'r Fro, a thrwy hynny ddangos i ddysgwyr y ddarpariaeth a'r gefnogaeth a oedd ar gael iddynt i'w galluogi i ddatblygu'n Gymry Cymraeg.

Lluniwyd y cyfeiriadur ar sail ymatebion a gafwyd i holiadur. Gwnaeth is-bwyllgor cydlynu'r ŵyl bob ymdrech resymol, o fewn y cyfnod trefnu, i sicrhau bod y cynnwys mor gyflawn a chywir ag y bo modd. Cofnodwyd y wybodaeth mewn cronfa ddata gyfrifiadurol a byddai CYD yn croesawu ychwanegiadau/cywiriadau i'r hyn a gyhoeddir yn yr atodiad hwn. Cysyllter yn y cyswllt hwn â Peter Bradley, 117 Oakridge, Thornhill, Caerdydd CF4 9BY. Gobeithir y bydd modd diweddaru'r cyfeiriadur yn gyson o flwyddyn i flwyddyn ac y bydd yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr a hwylus i ddysgwyr a Chymry Cymraeg fel ei gilydd.

***This directory provides information about the range of opportunities and channels that exist in Cardiff and the Vale to learn, to use and to live through the medium of Welsh.***

**– CYDNABYDDIAETH –**

Dymuna CYD: De Morgannwg gydnabod yn ddiolchgar gefnogaeth a chymorth y canlynol yng nghyswllt gŵyl *Yn Gymraeg...yng Nghaerdydd a'r Fro:*

***Acen; Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd; Banc National Westminster; Celtic Henderson Crosthwaite; Clwb Ifor Bach; Cyd-bwyllgor Addysg Cymru; Cyngor Dinas Caerdydd a Neuadd Dewi Sant; Cymdeithas Canna; Cynyrchiadau Fflic a Now You're Talking; Delwyn Siôn a'i gyfeillion; Y Dinesydd; Alun Ceri Jones, Surrexit; Menter a Busnes; Slot Meithrin (S4C); Taith gerdded noddedig Cerddwn Ymlaen; Cen Williams am arwyddlun yr ŵyl; Qualitex Cyf.***

Dyluniwyd gan Surrexit: 0222 578772

# – addysg –

**– MEITHRIN –**

**Mudiad Ysgolion Meithrin**
145 Albany Road, Caerdydd
neu 77 Richmond Road, Caerdydd
Ffôn: 0222 464091
**Cyswllt:** Chris Jones
72 Bishops Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
Ffôn: 0222 620788
**Cyfarfodydd:** Cyfarfod Rhanbarth bob tymor. 14 Cylch Meithrin yn yr ardal; 22 Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi; 4 Cylch Ti a Fi.
***Welsh-medium nursery movement, with 40 groups in Cardiff***

**– BABANOD –**

**Ysgol St Ffransis**
Porth y Castell, Y Barri
Ffôn: 0446 733855
***Welsh-medium infant school, Barry***

**– CYNRADD –**

**Ysgol Bro Eirwg**
Ridgeway Road, Tredelerch,
Caerdydd CF3 9AB
Ffôn: 0222 777124
**Prifathro:** Elfan W Jones
***Welsh-medium primary school, Rumney***

**Ysgol Gymraeg Coed y Gof**
Beechley Drive, Pentrebaen,
Caerdydd CF5 3SG
Ffôn: 0222 564585
**Prifathro:** Arwel Peleg Williams
***Welsh-medium primary school, Pentrebane***

**Ysgol Gymraeg Penarth**
Heol Redlands, Penarth CF6 1QN
Ffôn: 0222 700262
**Prifathro:** Howard Goodfellow
***Welsh-medium primary school, Penarth***

**Ysgol Gymraeg Sant Baruc**
St Paul's Avenue, Y Barri
Ffôn: 0446 735595
**Pennaeth yr Ysgol:** Dulyn Griffith
***Welsh-medium primary school, Barry***

**Ysgol Gymraeg Treganna**
Radnor Road, Treganna,
Caerdydd CF5 1RB
Ffôn: 0222 383887
**Prifathro:** Peter Davies
***Welsh-medium primary school, Canton***

# – addysg –

**Ysgol Iolo Morganwg**
Broadway, Y Bontfaen CF7 7ER
Ffôn: 0446 772358
**Prifathro:** Alan W Jones
*Welsh-medium primary school, Cowbridge*

**Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd**
Erw Las, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
Ffôn: 0222 691247
**Prifathro:** Gareth Evans
*Welsh-medium primary school, Whitchurch*

**Ysgol Pencae**
Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QA
Ffôn: 0222 563851
**Prifathrawes:** Eleri Jones
*Welsh-medium primary school, Llandaf*

**Ysgol St Curig**
Ffordd y Coleg, Y Barri
Ffôn: 0446 420109
**Prifathrawes:** Eleri Hourahane
*Welsh-medium primary school, Barry*

**Ysgol y Wern**
Ffordd Llangrannog, Llanisien, Caerdydd CF4 5BL
Ffôn: 0222 762114
**Prifathrawes:** Glesni Whettleton
*Welsh-medium primary school, Llanishen*

**– UWCHRADD –**
**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**
Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL
Ffôn: 0222 562879
**Prifathro:** J.E Malcolm Thomas
*Glantaf Welsh-medium comprehensive school*

# – busnes –

**Pobl Fusnes Cymraeg Caerdydd**
d/o Siân Johnston, Menter a Busnes, Uned 1, Cwrt y Parc, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF4 5GH
Ffôn: 0222 761314
**Amcanion:** Cryfhau cysylltiadau rhwng pobl fusnes ardal Caerdydd. Yn agored i reolwyr neu berchnogion busnesau o bob math
*An association of Welsh-speaking business people*

# – capeli ac eglwysi –

**Bethel**
Maes y Deri, Rhiwbeina, Caerdydd
**Cyswllt**: Gwyndaf Owen
44 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB
*Bethel Welsh Chapel, Rhiwbina*

**Bethel**
Stryd Plassey, Penarth
**Gweinidog:** Parch Meurwyn Williams
Ffôn: 0222 563219
**Cyswllt:** Rowland Owen
Ffôn: 0222 701877
**Oedfaon:** 10.45am ac Ysgol Sul; 6.00pm. Annibynwyr
*Bethel Welsh Congregationalist Chapel, Penarth*

**Salem**
Stryd y Farchnad, Treganna, Caerdydd
**Gweinidog:** Parch Haydn Thomas
Ffôn: 0222 565105
**Cyswllt:** Richard Hall Williams
17 West Orchard Crescent, Parc Fictoria, Caerdydd CF4 1AR
Ffôn: 0222 562472
*Salem Welsh Presbyterian Chapel, Canton*

**Capel y Maendy**
Maendy, Y Bontfaen
**Cyswllt:** E Clement
Maes-y-Beirdd, 17 Tennyson Way, Trebefered, Llanilltud Fawr
Ffôn: 0446 796560
**Oedfaon:** 10.30am Sul cyntaf y mis gwasanaeth cymundeb, 3.00pm Suliau eraill Ysgol Sul/Gweinidog gwadd. 10.30am Sul ola'r mis yn ddwyieithog
*Maendy Welsh Chapel, Cowbridge*

**Y Tabernacl**
Yr Ais, Caerdydd
**Cyswllt:** D.E Evans
24 Cefn Carnau Road, Y Mynydd Bychan, Caerdydd
Ffôn: 0222 757326
**Oedfaon:** 10.30am, 6.00pm. Ysgol Sul 11.20am. Bedyddwyr
*Tabernacl Welsh Baptist Chapel, The Hayes*

**Y Tabernacl**
Sgwâr y Brenin, Y Barri
**Cyswllt:** Goronwy Williams
Woodland, Oxford Street, Y Barri
Ffôn: 0446 744754
**Oedfaon:** 11.00am, 6.00pm (4.00pm y gaeaf). Ysgol Sul i'r plant yn ystod oedfa'r bore. Annibynwyr
*Tabernacl Welsh Congregationalist Chapel, Barry*

# - capeli ac eglwysi -

**Capel Minny Street**
Minny Street, Y Waun Ddyfal, Caerdydd
**Cyswllt:** Iwan Jones
38 Thornhill Road, Llanisien,
Caerdydd CF4 6PP
Ffôn: 0222 757727
**Oedfaon:** 10.30am, 6.00pm. Ysgol Sul 11.20am. Annibynwyr
***Minny Street Welsh Congregationalist Chapel, Cathays***

**Ebeneser**
29 Heol Siarl, Caerdydd
**Cyswllt:** Dr Emrys Evans
Maes Glas, Pen y Tyrpeg, Dinas Powys
Ffôn: 0222 512985
**Oedfaon**: 10.30am, 6.00pm. Ysgol Sul 11.15am. Annibynwyr
***Ebeneser Welsh Congregationalist Chapel, Charles Street***

**Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg**
Croft Street, Plasnewydd, Caerdydd
**Cyswllt:** Gwynn Williams
23 Kelvin Road, Parc y Rhath,
Caerdydd CF2 5ET
Ffôn: 0222 490687
**Oedfaon:** 10.00am, 6.30pm. Ysgol Sul 11.30am.
***Welsh Evangelical Church, Plasnewydd***

**Yr Eglwys Undodaidd**
West Grove, Caerdydd
Ffôn: 0658 873440
**Cyswllt:** Jane Williams
13 York Place, Rhisga, Gwent
Ffôn: 0633 613244
**Oedfaon:** Gwasanaeth Cymraeg ar yr ail Sul o'r mis am 3.30pm
***Unitarian Church, West Grove***

**Capel y Crwys**
Richmond Road, Y Rhath, Caerdydd
**Cyswllt:** D Gwyn Jones
3 Heol Coed Cae, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF1 1HJ
Ffôn: 0222 627435
**Oedfaon:** 10.30am a 6.00pm. Ysgol Sul 11.00am (plant) a 11.30am (oedolion). Presbyteriaid
***Crwys Presbyterian Chapel***

**Eglwys Gatholig Pen-y-bont ar Ogwr**
**Cyswllt:** Carys Whelan
Ffôn: 0446 772888
**Oedfaon:** Offeren bob prynhawn Sul am 4.45pm. Ysgol Sul 4.15pm
***Welsh Catholic service, Bridgend***

**Eglwys Dewi Sant**
St Andrews Crescent, Caerdydd
**Ficer:** Parch Saunders Davies
Hafod Lon, 51 Heath Park Avenue,
Caerdydd CF4 3AF
Ffôn: 0222 751418
**Oedfaon:**: 8.00am Cymun, 11.00am Cymun ar Gân/Boreol Weddi, 11.15am Ysgol Sul, 6.00pm Cymun Bendigaid/ Hwyrol Weddi. Dydd Mawrth 10.30am Cymun Bendigaid. Yr Eglwys yng Nghymru
***Eglwys Dewi Sant Church in Wales***

# - chwaraeon -

**Clwb Criced Ifor Bach**
Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby,
Caerdydd
Ffôn: 0222 232199
**Cyswllt:** Hywel James
151 Stryd Cyfarthfa, Y Rhath,
Caerdydd CF2 3HH
***Welsh-medium cricket club***

**Clwb Cymric (Pêl-droed)**
Tafarn yr Halfway, Heol y Gadeirlan,
Caerdydd
**Cyswllt:** D Hughes
112 Maes y Sarn, Pentyrch, Caerdydd
Ffôn: 0222 891753
**Cyfarfod:** Yr Halfway dydd Sadwrn 4.30pm hyd 6.00pm.
***Welsh-medium soccer club***

**Clwb Nofio'r Cymry**
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd,
Caerdydd
**Cyswllt:** Gaynor C Jones
10 Maes y Deri, Rhiwbeina,
Caerdydd CF4 6JJ
Ffôn: 0222 627668
**Cyfarfod:** Nos Iau 7.30pm tan 8.30pm. Deg gwers am £20.
***Welsh-medium swimmers' club***

**Clwb Cadw'n Heini**
Ysgol Gyfun Glantaf
**Cyswllt:** Wyn Davies, 39 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AG
Ffôn: 0222 611587
**Cyfarfod:** Nos Lun
***Keep fit group***

**Clwb Rygbi Cymraeg Caerdydd**
**Cyswllt:** Steve Lloyd
54b Daniel Street, Y Waun Ddyfal,
Caerdydd CF2 4NY
Ffôn: 0222 228481
***Welsh-medium rugby club***

# - chwaraeon -

**Clwb Pêl-droed Inter Ifor**
**Cyswllt:** Lloyd Mahoney
7 Heol Kingsland, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
Ffôn: 0222 624465
**Cyfarfod:** Ymarfer nos Lun am 7.30pm yng Nghanolfan Hamdden y Mynydd Bychan. Gêmau brynhawn/nos Sul.
*Welsh-medium soccer club*

**Clwb Rygbi Ieuenctid Caerdydd**
**Cyswllt:** John Evans
Ffôn; 0222 843275
**Amcanion:** Clwb rygbi i blant 7-16 oed
**Cyfarfod:** Bore Sadwrn 11.00am tan 12.00pm, meysydd Glantaf Isaf, y Tyllgoed. Aelodaeth £10 y flwyddyn
*Welsh-medium youth rugby club*

**Cymdeithas Golff y Ddinas**
**Cyswllt:** Ceri Preece a Dafydd Hampson-Jones
Ffôn: 0222 224871 neu 394021
**Cyfarfod:** Cwrdd ddwywaith y flwyddyn yn y gwanwyn a'r hydref ar gyrsiau gwahanol. Dim tâl aelodaeth, ond angen bod yn aelod o glwb golff swyddogol
*Welsh-medium golf club*

# - cymraeg i oedolion -

**Canolfan Dysgu Cymraeg**
22 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3DQ
**Cyswllt:** Chris Rees
Ffôn: 0222 390980
**Amcanion:** Dysgu cyrsiau dwys ac uwch
**Cyfarfod:** Rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau rhwng 8.00am a 6.00pm bob dydd o'r wythnos trwy gydol y flwyddyn, a chyrsiau preswyl ac hyfforddi athrawon
*Intensive Welsh courses for adults*

**CYD De Morgannwg**
**Cyswllt:** Paul Jeffries
54 Heol Erwin, Caerdydd CF4 6QR
Ffôn: 0222 625976
**Amcanion:** Dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd
*The Welsh Learners' Council*

**YMCA Caerdydd**
Y Rhodfa, Caerdydd CF2 3AG
Ffôn: 0222 489101
**Cyswllt:** Maureen Ireland, Swyddog Datblygu
**Amcanion:** Cymdeithas Gristnogol gyda pholisi cadarnhaol er hybu'r Gymraeg
**Cyfarfod:** Dosbarthiadau Cymraeg i bob lefel.
*YMCA*

# - cymraeg i oedolion -

**Adran Addysg Barhaol**
Prifysgol Cymru, Caerdydd,
38 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3BB
Ffôn: 0222 874831/2
**Cyswllt:** Dr Gwenllian Awbery
**Amcanion:** Trefnu dosbarthiadau addysg oedolion, gan gynnwys Cymraeg fel ail iaith ar bob lefel ac Wlpan
*Welsh language courses for adults*

**Awdurdod Addysg De Morgannwg**
Cyrsiau i ddysgwyr o bob safon mewn amrywiol ganolfannau ledled y sir
*Courses for learners at all levels in centres throughout the county*

**Clwb Ifor Bach a Chymdeithas yr Iaith**
Gweler isod
*See below*

**Cymdeithas Canna**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Pontcanna, Caerdydd
**Cyswllt:** Dafydd Prys,
26 Stryd Hamilton, Treganna, Caerdydd
Ffôn: 0222 387859

# - grwpiau pwyso -

**Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF2 3AJ
Ffôn: 0222 486469
**Cyswllt:** Gareth Kiff
9 Rhodfa Torrens, Glanyllyn, Caerdydd CF2 6DQ
Ffôn: 0222 755475
**Amcanion:** Ymgyrchu dros gyfartaledd i'r Gymraeg a dwyieithrwydd naturiol. Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro.
**Cyfarfod:** Cyfarfodydd Cell yn fisol ar nos Sul yng Nghlwb Ifor Bach.
**Trefniadau i ddysgwyr:** Cyrsiau dwys i ddechreuwyr ac i ddysgwyr mwy profiadol ddwywaith y flwyddyn ynghyd â digwyddiadau cymdeithasol
*The Welsh Language Society*

**Pont**
**Cyswllt:** Fiona Summerfield
9 The Grove, Y Barri
Ffôn: 0446 738665
*Movement promoting the history, language and culture of Wales amongst newcomers to Wales*

# - grwpiau pwyso -

**Rhieni Dros Addysg Gymraeg**
**Cyswllt:** Illtyd Lewis
25 Ffordd Marlborough, Y Rhath,
Caerdydd CF2 5BT
Ffôn: 0222 493976
**Amcanion:** Hybu tyfiant addysg gyfrwng-Gymraeg
**Cyfarfod:** Cangen Caerdydd yn cwrdd yn ysgol Glantaf bob mis i 6 wythnos ar nos Lun am 7.30pm
*Parents for Welsh-medium Education*

# - hamdden -

**Merched y Wawr, Caerdydd**
Capel Minny Street, Minny Street,
Caerdydd
**Cyswllt:** Mair Elvet Thomas
Tre Llywelyn, 26 Gerddi Plasturton,
Caerdydd CF1 9HF
Ffôn: 0222 382589
**Amcanion:** Hybu'r Gymraeg er lles merched
**Cyfarfod:** Ail nos Lun y mis o Fedi i Fehefin/Gorffennaf. Un noson y flwyddyn ar gyfer dysgwyr
*Cardiff Welsh women's association*

**Merched y Wawr, Radur**
Neuadd y Methodistiaid, Ffordd
Windsor, Radur
**Cyswllt:** Enid Hansen
Tan'rallt, 98 Heol Isaf, Radur, Caerdydd
Ffôn: 0222 843967
**Cyfarfod:** Nos Fercher gynta'r mis, 7.30pm
*Radyr Welsh women's association*

**Aelwyd Henoed Cymry Caerdydd**
**Cyswllt:** Gwenda Morgan
9 Heol Llanisien Fach, Rhiwbeina,
Caerdydd
Ffôn: 0222 693848
**Cyfarfod:** Bob yn ail brynhawn Mercher am 2.00pm yn festri capel Minny Street. Trefnir cludiant mewn bws mini. Tâl aelodaeth £1 y flwyddyn. Bws a the £1. Siaradwyr a gweithgareddau
*Senior citizens' group*

**Dosbarth Yoga Cymraeg**
Ysgol Gyfun Glantaf
**Cyswllt:** Valmai Evans (Tiwtor)
26 Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF4 2AU
Ffôn: 0222 612104
**Cyfarfod:** Nos Lun 7.30pm - 9.00pm
*Welsh-medium yoga class*

# - hamdden -

**Clwb Ifor Bach**
11 Stryd Womanby, Caerdydd CF1 2BR
Ffôn: 0222 232199
**Amcanion:** Clwb cymdeithasol Cymraeg i aelodau cofrestredig
**Cyfarfod:** Ar agor nos Fercher tan nos Sadwrn. Adloniant bob penwythnos. Cymdeithasau amrywiol. 3-4 dosbarth ar gyfer gwahanol lefelau o ddysgwyr
*The Cardiff Welsh-language social club*

**Clwb Cymraeg Ysbytai Caerdydd**
Ysbyty Brenhinol Caerdydd
Ffôn: 0222 492233 estyniad 5619
**Cyswllt:** Handel Walters
58 Crystalwood Road, Y Mynydd
Bychan, Caerdydd CF4 4HW
Ffôn: 0222 762087
*Cardiff Hospitals' Welsh-language club*

**Côr Caerdydd**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy,
Pontcanna, Caerdydd
**Cyswllt:** Delyth Medi Jones
18 Summerfield Avenue, Y Mynydd
Bychan, Caerdydd
Ffôn: 0222 619934
**Cyfarfod:** Nos Fercher am 7.30pm
*Choir*

**Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd**
**Cyswllt:** Megan Williams
69 Heol y Gors, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF4 1HH
Ffôn: 0222 628733
**Cyfarfod:** Bob yn ail nos Wener dros fisoedd y gaeaf yn neuadd capel Bethel yr Eglwys Newydd
*Whitchurch Welsh society*

**Cymdeithas Cymry'r Wenallt**
**Cyswllt:** Eurig Jenkins
102 Heol y Coed, Rhiwbeina, Caerdydd
Ffôn: 0222 616501
**Cyfarfod:** Ail nos Wener y mis am 8.00pm, Clwb Rygbi'r Eglwys Newydd. Cymdeithas i ddynion
*Welsh society for men*

**Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy,
Pontcanna, Caerdydd
**Cyswllt:** Ann Martin
2 Llanedeyrn Road, Cyncoed, Caerdydd
Ffôn: 0222 492440
Tîm dawnsio gwerin swyddogol Dinas Caerdydd
*Folk dance group*

# - hamdden -

**Cwmni Drama'r Crwys**
Capel y Crwys, 77 Heol Richmond,
Caerdydd
**Cyswllt:** Bob Roberts
99 Cefn Graig, Rhiwbeina,
Caerdydd CF4 6JY
Ffôn: 0222 627903
**Cyfarfod:** 7.30pm nos Fercher. Yn perfformio un cynhyrchiad y flwyddyn, a gweithgareddau ynghlwm wrth y capel
*Amateur drama group*

**Cwmni Drama'r Gadwyn, Radur**
**Cyswllt:** Philip Wyn Jones
21 Gabalfa Road, Caerdydd CF4 2JJ
Ffôn: 0222 565998
**Cyfarfod:** Mannau ymarfer yn amrywio. Perfformiadau yn Ysgol Gyfun Radur.
*Amateur drama group*

**CYD/CIG**
Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca
(City Road), Y Rhath, Caerdydd
**Cyswllt:** Peter Bradley
117 Oakridge, Thornhill, Caerdydd CF4 9BY
Ffôn: 0222 763426
**Amcanion:** Cymdeithasu ac yfed trwy gyfrwng y Gymraeg.
**Cyfarfod:** Bob nos Iau o 9.15pm ymlaen tan stop-tap
*Welsh in a pub*

**Tŷ'r Cymry**
Cymdeithas y Tŷ, 11 Heol Gordon,
Y Rhath, Caerdydd CF2 3AJ
**Cyswllt:** Iorwerth Morgan
**Amcanion:** Darparu mannau cyfarfod ar gyfer Cymry unigol a chymdeithasau Cymraeg
*A centre for Welsh-medium activities*

**Cylch Cinio Merched Caerdydd**
Gwesty'r Phœnix, Llanisien
**Cyswllt:** Gwyneth Jeffreys
137 Lake Road West, Caerdydd CF2 5PJ
Ffôn: 0222 754960
**Cyfarfod:** Pum cyfarfod blynyddol ar yr ail nos Iau o fis Medi, Tachwedd, Ionawr, Mawrth a Mai am 8.00pm. Cinio tri chwrs, a siaradwr gwadd.
*Welsh-medium diners' club for women*

**Twrch Trwyth (Dawnsio Gwerin)**
Clwb Ifor Bach, 11 Stryd Womanby,
Caerdydd
**Cyswllt:** Nerys Curig
33 Cwrt Vincent, Ffordd Vincent, Trelai,
Caerdydd
Ffôn: 0222 554763
**Cyfarfod:** Nos Lun o 7.30pm hyd 10.00pm
*Folk dance group*

**Cylch Llyfryddol Caerdydd**
**Cyswllt:** E Wyn James
16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF6 2AJ
Ffôn: 0222 628754
**Amcanion:** Hybu diddordeb ym mhob agwedd ar fyd llyfrau.
**Cyfarfod:** Misol rhwng Medi a Mehefin ar drydedd nos Wener y mis am 7.00pm yn Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Cymru Caerdydd.
*Welsh language literary society*

**Cymdeithas Carnhuanawc**
Clwb Ifor Bach, 11 Stryd Womanby,
Caerdydd
**Cyswllt:** Alan Jobbins
47 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd
Caerdydd CF4 1NJ
Ffôn: 0222 623275
**Amcanion:** Hybu diddordeb mewn hanes lleol a chenedlaethol.
**Cyfarfod:** Ail nos Fawrth y mis am 8.00pm yng Nghlwb Ifor Bach
*Hisory society*

**Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina**
Llyfrgell Rhiwbeina, Pen y Dre,
Rhiwbeina, Caerdydd
**Cyswllt:** Gwilym E Roberts
6 Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd CF4 6EF
Ffôn: 0222 693254
**Cyfarfod:** Unwaith y mis
*Rhiwbeina Welsh society*

**Cymdeithas Wyddonol Caerdydd**
Clwb Ifor Bach, 11 Stryd Womanby,
Caerdydd
**Cyswllt:** Rhys Morris
14 Highfields, Llandaf, Caerdydd
Ffôn: 0222 666120
**Amcanion:** Hybu trafod gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
**Cyfarfod:** Ail nos Lun y mis am 7.30pm
*Scientific society*

**Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd**
**Cyswllt:** Tony Couch
2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan,
Caerdydd CF4 5QH
Ffôn: 0222 753625
**Cyfarfod:** Misol ac eithrio Awst a Medi. Siaradwr gwadd
*Welsh-medium diners' club for men*

**Cymmrodorion Caerdydd**
**Cyswllt:** Parch Ifor Rees
36 Heol y Coed, Rhiwbeina, Caerdydd
Ffôn: 0222 625785
**Cyfarfod:** Nos Wener gyntaf y mis ac eithrio Ionawr
*Welsh cultural society*

# - hamdden -

**Urdd Gobaith Cymru**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy,
Pontcanna, Caerdydd CF1 9NT
Ffôn: 0222 236201
**Cyswllt:** Huw Davies
**Amcanion:** Prif fudiad ieuenctid Cymraeg Cymru. Adrannau yn Salem Treganna, Crwys, Coleg Cyncoed, y Barri, Tŷ Celyn, Capel Albany, Llandaf, Coleg Dewi Sant, Llanrhymni, Parc y Rhath, ac mewn ysgolion
*The Welsh League of Youth*

**Y Dinesydd**
**Golygydd:** Shân Emlyn
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf,
Caerdydd CF5 2EE
Ffôn: 0222 567438
*Cardiff's monthly Welsh-language news magazine*

# - bro morgannwg -

**CYD – Pobl y Bont**
**Cyswllt:** Jeanne Crabb
1 Tŷ Woodstock, 83 Stryd Fawr,
Y Bontfaen CF7 7AF
Ffôn: 0446 774452
**Cyfarfod:** Dydd Gwener yn *Y Dug* 12.00pm - 2.00pm. *Farthings* ddydd Mawrth 10.30am - 12.00pm. Wedi ei anelu at ddysgwyr a Chymry Cymraeg
*The Welsh Learners' Council*

**Cylch Cinio y Barri**
**Cyswllt:** Islwyn Jones
47 Gwenfô Drive, Gwenfô,
Caerdydd CF5 6BR
Ffôn: 0222 594533
*Barry Welsh-language diners' club*

**Cymdeithas Cymmrodorion y Barri**
Y Tabernacl, Sgwâr y Brenin, Y Barri
**Cyswllt:** John Williams
76 Porth y Castell, Y Barri
Ffôn: 0446 745620
**Cyfarfod:** Trydedd nos Fawrth y mis am 7.00pm o fis Medi tan fis Mai
*Barry Welsh cultural association*

**Cymdeithas Gymraeg Penarth**
Capel Bethel, Heol Plassey, Penarth
**Cyswllt:** Gwen Stanton, 46 Fairfield Road, Penarth CF6 1SL
Ffôn: 0222 702332
*Penarth Welsh society*

# - bro morgannwg -

**Merched y Wawr, Y Barri**
**Cyswllt:** Margaret Harris
30 Trem y Don, Y Barri
Ffôn: 0446 734202
*Barry Welsh-language women's association*

**Merched y Wawr, Y Bontfaen**
Neuadd y Dref, Y Bontfaen
**Cyswllt:** D Davies
Ael y Bryn, Constitution Hill, Y Bontfaen
Ffôn: 0446 772594
**Cyfarfod:** Ail nos Lun y mis
*Cowbridge Welsh-language women's association*

**Banc National Westminster**

Mae NatWest
yn falch o fod yn gysylltiedig
â'r digwyddiad hwn

fflic

Mae Fflic a Now You're Talking
yn dymuno'n dda i Ŵyl
Yn Gymraeg...Yng Nghaerdydd
a'r Fro

Broceriaid Stoc a Rheolwyr
Buddsoddi Annibynnol
Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru
**"Yng ngheg y sach mae cynilo"**
**Yn gyntaf, dewch i siarad â ni**
**Dafydd Hampson-Jones neu Howard Bailey**
Tŷ Penhill, Heol Penhill, Caerdydd CF1 9UP
Ffôn (0222) 394021/6 ffacs (0222) 228452
[illegible]

ADRAN Y GYMRAEG
**MA mewn Astudiaethau Gwerin**
Cynigir y radd hon ar y cyd gan Amgueddfa Werin Cymru ac Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd. Astudir arferion traddodiadaol Cymru, llên gwerin ac agweddau ar fywyd yn y gymdeithas Gymraeg.


Cwrs blwyddyn (llawn amser) yn dechrau Hydref 1993.

**Am fanylion pellach, ysgrifennwch at**
**Y Swyddog Derbyn**
**Adran y Gymraeg**
**Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd**
**Blwch SP 910**
**Caerdydd CF1 3XW**
**Ffôn: (0222) 874848**

CAERDYDD

## CROESAIR AP LEWSYN MIS CHWEFROR '93 RHIF 126

"Y Croesair Cymraeg sy cystal â chroesair y Times"
Tom Arfon Owen a ddaeth yn bedwerydd yn rownd derfynol croesair y Times 1992



### AR DRAWS

7 Y fam yn codi i wneud ymrwymiad (8)
9 Prydyddiaeth addas i Rheilffyrdd Prydain? (6)
10 Ymroddais i'r gwaith (2,3)
11 Byddai yn rhoi gorthrwm ar Esgimo crynedig (8)
12 Lle i aros a chael pryd ar waelod afon? (5,1,8)
15 Ateb felly a gewch gan un diamynedd (2,4)
16 Mae Ei Mawrhydi yn eu hanwesu (6)
18 Caer a godwyd ar sylfaen haearnaidd yng ngogledd Morgannwg (6,8)
20 Y cyw odiaf, didrefn o'r nythiad yw'r un a lŷn yn y cof (8)
22 "Treuliasom ein blynyddoedd fel __________" (Llyfr y Salmau, hen gyfieithad) (5)
24 Y fath beth! yn y Gogledd (6)
25 Deheuwr yn dweud ei fod wedi tynnu côt y twrci (8)

### I LAWR

1 Nodau hynod cymeriadau arbennig y gymdogaeth (8)
2 Fel y bydd yr Hwntw yn gwario! (4)
3 Torri gair llw yn reit lliwus (6)
4 Cymer enau'r afon a gweli yma ffrwd hefyd (4)
5 Cares go arw sy'n mwstro i'n derbyn yn rhadlon (10)
6 Stori liwgar, a rhan Mat ynddi yn gyffrous (6)
8 Maen nhw'n dweud mai un felly yw'r Cymro gorau (9)
13 Rhan o gynhaliaeth Ioan yn yr anialwch (10)
14 Mae lle rhyngddynt i'r sylw dros yr ysgwydd, wrth fynd heibio (9)
17 Afon ddeil i fod yn baradwysaidd (8)
18 Nid Pair y Dadeni, ond pair serch hynny (6)
19 Pwyo M.C nes ei fod yn disgyn i'r llawr (6)
21 Llygad-dynnu aelodau o'r uned (4)
23 Mân-flagur a welir ar y ffordd o Faesteg i Nantyffyllon (4)

### CYSTADLEUAETH 125

Daeth 25 ymgais i law, a 23 ohonynt yn hollol gywir. Mae'n ddiddorol sylwi fel mae apêl Croesair y Dinesydd yn lledu. Daeth atebion cywir o Fangor (dau), ac o'r Ffôr, Pwllheli;Y Bontfaen; Meisgyn, Pontyclun; Castellnewydd Emlyn; Abergwaun; Casnewydd; Llanfihangel ar Elai; Llanfihangel Genau'r Glyn; yn ogystal â 13 o Gaerdydd. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo Hugh Rees, Meisgyn, ac iddo ef felly yr aiff y tocyn llyfr y mis hwn.

### CYSTADLEUAETH 126

Cynigir tocyn llyfr £5 eto. Torrer y croesair â digon o ymyl sbâr i gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 20 Chwefror.

### DATRYSIAD 125



## SÊR MIS CHWEFROR



EIRY PALFREY

### ARIES

Mae'r pwyslais astrolegol ar gymdeithasu, ac ar eich cyfeillion ar hyn o bryd. Mae'n eitha posib y byddwch yn trefnu rhyw soirée bach dethol yn eich cartre – does dim o'i le yn hynny, ond efallai y bydd rhai 'cyfeillion' yn eich gadael i lawr.

### TAURUS

Mae newyddion ar ei ffordd sy'n ymddangos yn newyddion da ar yr wyneb, ond mae 'na elfen mwy difrifol iddo. Mae gwledydd tramor yn uchel yn eich meddwl ar hyn o bryd – mae hi'n amser ardderchog felly i gynllunio'ch gwyliau.

### GEMINI

Mae eich rheolwr, y blaned Mercher, mewn arwydd creadigol iawn o'ch siart ddechrau'r mis. Ewch ati i greu, ac i greu argraff hefyd ar y bobol bwysig yn eich bywyd. Ond cadwch ffrwyn ar eich tafod rhag ofn i chi agor eich ceg a rhoi'ch troed ynddi.

### CANSER

Yn ystod y mis nesa mae rhyw elfen bwysig yn eich bywyd yn dod i ben, ond bydd drws newydd arall yn agor yn ei sgil. Fe ddylech chi fod wedi cael si o'r achlysur eisoes. Mae'n debyg iawn y clywch chi newyddion am farwolaeth neu enedigaeth.

### LEO

Mae'r pwyslais ar eich partneriaeth y Chwefror yma. Os oes tensiwn rhyngoch chi a'ch cymar, allwch chi mo'i sgubo dan y carped am lawer mwy – mae gofyn i'r ddau ohonoch wynebu'r broblem a'i thrafod er mwyn ei datrys.

### VIRGO

Cymrwch ofal o'ch iechyd Virgo, rych chi'n gallu bod yn dipyn o hypochondriac yn aml, ond rych chi'n fwy delicet nag arfer ar hyn o bryd, ac fe allai'r hen jyrms gymryd gafael os na gymrwch chi ofal, lapio'n gynnes a llyncu fitamine.

### LIBRA

Mae ymweliad yr Haul ag Aquarius yn golygu cyfnod creadigol iawn i chi. Ewch ati fel lladd nadroedd, chewch chi ddim cystal cyfle am sbel eto. Fe ddylech chi greu argraff ddofn ar rywun pwysig yn y gwaith. Mae newyddion o enedigaeth yn y gwynt hefyd.

### SGORPIO

Mi fyddwch chi'n rhoi mwy o sylw i'ch cartre y Chwefror yma. Mae hwn yn gyfnod ardderchog i chi ail-wampio'r nyth, ac mi fyddwch chi'n ysu i fynd ati i sbrinclinio, i baentio a phapuro – ac fe gewch chi lot o foddhad o'r gwaith.

### SAGITTARIUS

Mae hwn yn gyfnod gwych i gyfathrebu – i ateb y pentwr o lythyron 'na sy'n dal i ddisgwyl – i dalu'r biliau cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Hen orchwylion annymunol ond rhaid eu gwneud. Ewch ati – neu codwch y ffôn. Deuparth gwaith ei ddechrau Sagittarius!

### CAPRICORN

Arian, arian a mwy o arian Capricorn, dyna lle mae'r pwyslais astrolegol ar hyn o bryd, ac fe ddylech chi wneud yn dda iawn. Ond gochelwch rhag bod yn gybyddlyd! Talwch bob un o'ch biliau.

### AQUARIUS

Mae hwn yn fis arbennig i chi, pan fo'r Haul, Mercher a Sadwrn yn eich arwydd, mae pennod newydd yn sicr o ddigwydd yn eich bywyd, yn eich gwaith neu yn eich bywyd personol.

### PISCES

Mae eich planed arbennig chi, Neifion freuddwydiol, yn ymddwyn yn bositif iawn ar hyn o bryd. Ddylai hwn fod yn fis da iawn i chi'n greadigol. Ond mae eich agwedd at arian yn gwbl anghyfrifol.


**Gwasanaeth i Gymry Caerdydd**

*Yn yr Eglwys Newydd*

CAPITAL Travel

Rhan o Gwmni Teithio Richards

*Medrwch wneud eich trefniadau ar gyfer eich*

**GWYLIAU '93**

*gyda Chymry Cymraeg*

**BARBARA neu ALED**

*Mae'r ddau yn aros am eich galwad – ffoniwch*

**Capital Travel Cyf.**
**11 Heol Penlline**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**(0222) 628661**

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

# Cewri'r Cefnfor



Cewri'r
dyfnderoedd
yn dod yn fyw

**Gweithgareddau hanner tymor i blant**
**13-21 Chwefror**

**Arddangosfa**
yn gysylltiedig â
Dinamation International Corporation

Yn cychwyn dydd Sadwrn 13 Chwefror
Dydd Mawrth – Sadwrn 10-5; Sul 2.30-5
Am fanylion pellach ffoniwch
y llinell wybodaeth (0222 388111)

TROSOL

TROSOL CYF.

Mae prif gwmni cyfieithu ac is-deitlo Cymru, TROSOL CYF, yn ehangu ymhellach. Rydym yn chwilio am

**BENNAETH IS-DEITLO, IS-DEITLWYR, AC YSGRIFENNYDD/YSGRIFENYDDES**

Oherwydd y galw cynyddol am ein gwasanaethau safonol, 'rydym yn chwilio am gyfieithwyr ac is-deitlwyr achlysurol ledled Cymru gan gynnwys ymgeiswyr sydd am weithio o'u cartrefi.

Mae angen **PENNAETH IS-DEITLO** yn ein swyddfa yng Nghaerdydd i arwain tîm is-deitlo llwyddiannus Trosol. Does dim angen profiad o is-deitlo am ein bod yn cynnig hyfforddiant llawn. Rydym yn chwilio am berson hyblyg, egniol all weithio mewn awyrgylch sy'n ymwybodol o'r angen am ansawdd da a'r angen i gwrdd â therfynau amser. Rhaid i'r person feddu ar sgiliau trefnu a phrofiad o reoli pobl ac o drin iaith. Er nad yw'n hanfodol, byddai profiad o drin cyfrifiaduron ac/neu o'r byd teledu yn fanteisiol. Ar ôl cyfnod cychwynnol o hyfforddiant telir cyflog rhwng £17,000 a £24,000.

Mae angen **IS-DEITLWYR** llawn-amser, rhan-amser a/neu achlysurol i ymuno â thîm Trosol yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a Chaernarfon i baratoi is-deitlau Saesneg ar gyfer rhaglenni S4C. Trefnir hyfforddiant. Ar ôl cyfnod cychwynnol o hyfforddiant, telir cyflog o £13,775 y flwyddyn (pro rata ar gyfer is-deitlwyr achlysurol).

Mae angen **YSGRIFENNYDD/YSGRIFENYDDES** yn ein swyddfa brysur yng Nghaerdydd i helpu gyda'r gwaith ysgrifenyddol a gweinyddol. Ar ôl cyfnod prawf cychwynnol, telir cyflog rhwng £6,500 a £9,500 y flwyddyn yn dibynnu ar brofiad a photensial yr ymgeisydd llwyddiannus.

Ar gyfer y swyddi uchod disgwylir cymwysterau da yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r gallu i deipio yn hanfodol. Byddai profiad o ddefnyddio prosesydd geiriau hefyd yn fanteisiol. Darperir pensiwn ar gyfer swyddi llawn-amser.

**Am ffurflen gais a manylion pellach, ysgrifennwch gan nodi'r swydd yr ydych am wneud cais amdani at John Jones, Cyfarwyddwr, Trosol Cyf, Clos Sant Ioan, Castell Newydd Emlyn, Dyfed SA38 9AF**

GWENT
*County Council*

Mae cyfleoedd ar gael i athrawon Cymraeg ac athrawon cyfrwng Cymraeg yn ysgolion cynradd ac uwchradd Gwent.

Os ydych chi'n athro/athrawes sy'n gallu dysgu Cymraeg fel mamiaith neu ail iaith, neu'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg cysylltwch ag Annette ar 0633 832388 neu Carole ar 0633 832975, neu ysgrifennwch at **y Cyfarwyddwr Addysg, Adran Staffio, Neuadd y Sir, Cwmbrân, Gwent NP44 2YG**

MAE EICH ANGEN
AR BLANT GWENT!

EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL
FRENHINOL
CYMRU

**SWYDDI YSGRIFENYDDOL CLERIGOL**

Y mae angen staff ysgrifenyddol/clerigol i weithio yn Swyddfa Ganolog yr Eisteddfod yn Llanisien, Caerdydd.

Y mae'r dyletswyddau yn amrywiol ac yn cynnwys gwaith ysgrifenyddol a chlerigol ynghyd â gweithredu fel derbynnydd y swyddfa.

Cynigir swydd llawn-amser neu swyddi rhan-amser a disgwylir i'r ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus weithio'n llawn-amser yn yr ŵyl.

Tâl fesul awr; cyflog ac oriau i'w trafod.

Ceisiadau trwy lythyr, yn amlinellu profiad a.y.y.b at:
*Gyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol,*
*40 Parc Tŷ Glas,*
*Llanisien,*
*Caerdydd CF4 5WU*
*erbyn 10 Chwefror*